



Taclo Digartrefedd

Ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn .

Unwaith bydd eich partneriaeth wedi'i ffurfio a'ch bod yn barod i anfon eich Mynegiad o Ddiddordeb, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

cronfagymunedolyg.org.uk
tnlcommunityfund.org.uk

Adran un

Cyn i chi lenwi eich cais

- Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn. Unwaith bydd eich partneriaeth wedi'i ffurfio a'ch bod yn barod i anfon eich Mynegiad o Ddiddordeb, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.
- Cadwch gopi o'r ffurflen ar eich cyfrifiadur.
- Sicrhewch eich bod wedi darllen [Nodiadau Arweiniad Taclo Digartrefedd](#) cyn i chi ddechrau eich cais. Mae hyn yn disgrifio pwy all wneud cais i Taclo Digartrefedd, yr hyn y byddwn yn talu amdano a sut y byddwn yn asesu'ch cais. Os oes gennych unrhyw gwestiynau na chawsant eu hateb yma, cysylltwch â'r Swyddog Ariannu yr ydym wedi'i aseinio i'ch partneriaeth.
- Sicrhewch fod eich partneriaid disgwylidig yn cytuno ar eu rolau disgwylidig yn y prosiect.
- Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg hefyd. I lenwi'r ffurflen yn Saesneg, cysylltwch â ni yn homelessness@tnlcommunityfund.org.uk. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg ac rydym wedi ymrwymo i drin ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall yn gyfartal.

Cymorth gyda'ch cais

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â Taclo Digartrefedd neu lenwi'r ffurflen gais hon, neu os oes ei hangen arnoch mewn fformat gwahanol (er enghraifft print bras), cysylltwch â ni trwy e-bostio digartrefedd@cronfagymunedolylg.org.uk neu trwy ffonio 0300 123 0735 neu gyfnewid testun ar 18001 plws 0300 123 0735.

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

Adran dau

Arweiniad ymgeisio

Pwy all ymgeisio?

Dim ond un mynegiant o ddiddordeb y byddwn yn ei ystyried ym mhob ardal awdurdod lleol.

I wneud cais, rhaid i chi fod yn gweithio mewn partneriaeth draws-sector sy'n:

- cael ei arwain gan fudiad trydydd sector a'n
- cynnwys yr awdurdod lleol perthnasol fel partner yn yr ardal rydych chi'n bwriadu gweithio ynddi

Y sefydliad arweiniol fydd ein prif bwynt cyswllt ar ran eich partneriaeth. Bydd ganddyn nhw gyfrifoldeb cyfreithiol am unrhyw arian rydyn ni'n ei ddyfarnu, a byddan nhw'n atebol yn ariannol am unrhyw arian sy'n cael ei ddosbarthu i bartneriaid a gwasanaethau cyflenwi. Byddwn yn disgwyl i'r mudiad hwn sicrhau bod ein gofynion adrodd yn cael eu bodloni.

Trwy trydydd sector, rydym yn golygu: Elusennau cofrestredig ac anghofrestredig, cwmnïau budd cymunedol, cwmnïau dielw wedi'u cyfyngu gan warant, mentrau cymdeithasol, cymdeithasau diwydiannol a darbodus a chwmnïau cydweithredol. Os ydych chi'n ansicr a ydych chi'n fudiad cymwys, cysylltwch â ni.

Bydd eich partneriaeth yn newid ac yn esblygu wrth i chi ddatblygu eich cynlluniau. Ar yr adeg hon rydym yn disgwyl y bydd gennych bartneriaeth graidd o fudiadau a fydd yn sicrhau datblygiad effeithiol eich prosiect.

Grant datblygu

Mae grant datblygu o hyd at £50,000 ar gael i bob Mynegiant o Ddiddordeb llwyddiannus a gyflwynir. Dylai hwn gael ei wario o fewn chwe mis iddo gael ei ddyfarnu, a chyn cyflwyno cais cam dau llawn.

Mae grantiau datblygu i gostau refeniw yn unig.

Credwn y gallai fod angen grantiau datblygu gan fod adeiladu cysylltiadau rhwng gwasanaethau statudol a gwasanaethau'r trydydd sector, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth ddylunio prosiectau a datblygu cynllun prosiect yn debygol o fod yn ddwys o ran adnoddau.

Beth sy'n gwneud cais da?

Rhaid i raddfa a chwmpas eich prosiect adlewyrchu dealltwriaeth o raddau a natur yr anghenion a'r materion rydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â nhw gyda'ch prosiect.

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

Mae gennym ddiddordeb hefyd yn y modd y mae hyn yn ategu'r gwasanaethau presennol.

Credwn y gallai arian grant tymor hwy hyrwyddo ailgynllunio gwasanaethau a bod yn fwy addas ar gyfer yr anghenion cymorth tymor hwy y mae llawer o fuddiolwyr posibl y prosiect yn debygol o'u cael, a dyna pam yr ydym yn cynnig arian grant dros gyfnod hir (hyd at saith mlynedd) , felly mae'n rhaid i chi ddangos ymrwymiad i'r uchelgais hon.

Pan fyddwch chi'n dweud wrthym am eich syniad prosiect, bydd angen i chi roi syniad i ni o'r hyn rydych chi'n cynnig y byddwch chi'n ei gynnwys yn eich cynllun prosiect llawn fel y gallwn ddeall graddfa a chwmpas eich gweledigaeth. Rydym yn cydnabod y gallai hyn newid ychydig yn ystod y cyfnod datblygu.

Pan fyddwn yn asesu eich mynegiant o ddiddordeb, byddwn yn ystyried:

- I ba raddau rydych chi'n deall maint a natur eich buddiolwyr targed
- Pa mor dda y mae eich syniad prosiect sy'n dod i'r amlwg yn cyd-fynd â'n pedwar nod ariannu
- Pa mor dda y bydd eich darpar fuddiolwyr yn gallu llunio cynllun y prosiect
- Pa mor dda y mae eich mudiad arweiniol yn darparu'r profiad a'r gallu i reoli'r prosiect
- Cynnwys yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill

I gael rhagor o wybodaeth am bwy all wneud cais a'r hyn yr ydym yn edrych amdano, darllenwch y [Nodiadau Arweiniad Taclo Digartrefedd](#) .

Amseriadau

Mawrth 2020 - Mai 2020	Mae eich partneriaeth yn cytuno ar syniad prosiect yn seiliedig ar anghenion a nodwyd yn lleol a phrofiadau defnyddwyr a darparwyr gwasanaeth.
Erbyn 29 Mai 2020	Rydych yn e-bostio'ch mynegiant o ddiddordeb ac unrhyw ddogfennau ychwanegol y gofynnwyd amdanynt atom.
Mai 2020 - Mehefin 2020	Rydym yn asesu eich mynegiant o ddiddordeb a byddwn yn ei drafod gyda chi.
Buan mis Gorffennaf 2020	Byddwn yn dweud wrthy a ydych wedi bod yn llwyddiannus.
Gorffennaf 2020	Os byddwch yn llwyddiannus, byddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn a dyfarnu eich arian grant datblygu os ydych wedi gofyn am un
Gorffennaf 2020 - Rhagfyr 2020	Gweithio gyda'ch partneriaid a'ch defnyddwyr gwasanaeth i gyd-ddylunio'ch cynllun prosiect a gweithio tuag at gyflwyno'ch cais llawn.
Erbyn 4 Ionawr 2021	Rydych chi'n cyflwyno'ch cais llawn a'ch cytundeb partneriaeth i ni.

Ionawr 2021 - Mawrth 2021	Byddwn yn adolygu eich cais llawn a gallwn gysylltu â chi ag unrhyw gwestiynau.
Mawrth 2021	Byddwn yn dweud wrthyh a ydych wedi bod yn llwyddiannus.

Canghennau

Os ydych chi'n gangen o fudiad mwy, dylech gysylltu â ni oherwydd efallai y bydd angen i ni anfon mwy o arweiniad atoch. Os ydych chi'n gangen ddibynnol o riant-fudiad yna bydd angen iddynt gymryd cyfrifoldeb cyfreithiol a chyfrifyddu yn y pen draw am ein grant os ydych chi'n llwyddiannus.

Cytundeb partneriaeth

Os cewch eich gwahodd i gyflwyno cynllun prosiect, bydd angen i chi anfon cytundeb partneriaeth rhyngoch chi (y mudiad arweiniol) a'r partneriaid eraill sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect. Bydd angen i ni gymeradwyo'ch cytundeb partneriaeth drafft cyn iddo gael ei lofnodi gan eich partneriaid.

Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol

Mae ariannu cyhoeddus i fudiadau sy'n cynnal gweithgareddau masnachol, gan gynnwys y rhai sydd â statws elusennol, yn cael eu llywodraethu gan [reoliadau 'Cymorth Gwladwriaethol' y Comisiwn Ewropeaidd](#).

Diffinnir cymorth gwladwriaethol gan y cytundeb sy'n sefydlu'r Comisiwn Ewropeaidd fel "unrhyw gymorth a roddir gan Aelod-wladwriaeth sy'n ystumio neu'n bygwth ystumio cystadleuaeth trwy ffafrio rhai ymrwymadau neu gynhyrchu nwyddau penodol." Mae'r Loteri Genedlaethol yn cael ei hystyried yn gyflenwr adnoddau'r wladwriaeth, ochr yn ochr â chyrrff llywodraeth genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Wrth ddatblygu eich cais, mae'n bwysig eich bod yn ystyried ac, os oes angen, yn cael cyngor ar reoliadau Cymorth Gwladwriaethol. Dylech ofyn am gyngor cyfreithiol os ydych yn ansicr a yw'ch prosiect yn cydymffurfio â chymorth gwladwriaethol. Mae methu â chydymffurfio â'r rheolau yn golygu bod y cymorth yn anghyfreithlon, a gall fod yn destun ad-daliad gyda llog gan dderbynnwyd y cymorth.

Cydraddoldeb

Os ydym yn ariannu eich prosiect, byddwn yn disgwyl ichi fodloni'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol a chydymffurfio â'n hymrwymadau cydraddoldeb a nodir yn ein cyhoeddiad 'Materion Cydraddoldeb', y gallwch eu lawrlwytho yn <https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/about/customer-service/equalities>.

Y Gymraeg

Os ydym yn ariannu eich prosiect, bydd angen i chi sicrhau bod eich prosiect yn agored a'n gynhwysol i siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn eich cymuned. Bydd angen i'r holl wasanaethau a ddarperir fod ar gael a chael eu darparu yn

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

ddwyieithog, yn unol ag Amodau a Thelerau eich grant. Gallwch gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithio'n ddwyieithog yng nghyllideb eich prosiect. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ar ein gofynion laith Gymraeg yma: <https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/about/customer-service/welsh-language-scheme>

Lleihau eich ôl troed amgylcheddol

Mae'r amgylchedd yn bwysig i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ac rydym wastad yn ceisio rheoli ein effaith amgylcheddol. Rydym yn annog a chefnogi prosiectau a chymunedau i wneud yr un peth. [Dysgwch fwy am sut i wneud eich prosiect neu ddigwyddiad yn fwy amgylcheddol cynaliadwy, ac efallai arbed arian yr un pryd.](#)

Adran tri

Mudiad Arweiniol

I'w gwblhau gan y mudiad arweiniol.

1. Enw'r mudiad

Beth yw enw cyfreithiol llawn eich mudiad fel a ddangosir yn eich dogfen lywodraethu? Gwiriwch hyn - os yw'r enw cyfreithiol llawn yn anghywir gall achosi oedi i'ch cais.

A yw eich mudiad yn defnyddio enw gwahanol yn eich gwaith beunyddiol?

☐

Ydi

☐

Nac ydi

Os ydi, pa enw arall ydych chi'n ei ddefnyddio?

2. Gohebiaeth Mudiad

Cyfeiriad - Os cynigiwn grant ichi, dyma'r cyfeiriad y byddwn yn anfon y llythyr cynnig ato.

Côd post

Rhif ffôn un (llinell ddaearol)

Rhif ffôn arall

Gwefan

Cyfeiriad e-bost

3. Math o fudiad

Ydych chi'n elusen gofrestredig?

☐

Ydym

☐

Nac ydym

Pa fath o fudiad ydych chi?

☐

Mudiad Corfforedig Elusennol

☐

Cwmni nid er elw

☐

Ysgol neu gorff addysgol

☐

Corff statudol

☐

Elusen Cofrestredig (anghorfforedig)

☐

Mudiad Gwirfoddol neu Gymunedol anghofrestredig

☐

Mudiad Ffydd (Eglwys, Mosg, Synagog ayyb.)

☐

Coleg neu Brifysgol

☐

Elusen gofrestredig a Chwmni nid er elw

☐

Ysgol neu Gorff Addysgol ac Elusen

☐

Ysgol neu Gorff Addysgol a Chwmni

☐

Cwmni Budd Cymunedol

Darparwch unrhyw rifau cyfeirnod neu gofrestru sydd gennych:

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Tŷ'r Cwmnïau

Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Rhif cyfeirnod neu gofrestru arall

Rhowch fanylion:

4. Mudiadau cysylltiedig

A yw eich mudiad yn gangen o, neu'n perthyn i fudiad mwy?

☐

Ydi

☐

Nac ydi

Os ydych wedi ateb ydi, beth yw enw a chyfeiriad y mudiad mwy?

--

☐

Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau bod y mudiad mwy yn gwybod eich bod yn bwriadu bod yn fudiad arweiniol y bartneriaeth yn eich ardal chi.

Os bydd eich Mynediad o diddordeb yn llwyddiannus, byddwn yn gofyn i'r mudiad mwy dderbyn cyfrifoldeb cyffredinol am y prosiect ac unrhyw grant datblygu a ddyfernir. Ar gyfer canghennau y mae eu rheolaeth leol yn annigonol, bydd angen i'r rhiant-fudiad ymgeisio.

5. Pryd sefydlwyd eich mudiad?

Rhowch y dyddiad pan fabwysiadodd eich mudiad ei statws cyfreithiol presennol. Dylai hwn fod ar eich dogfen lywodraethu. Mae angen i bob mudiad ddarparu hyn. Os nad ydych chi'n gwybod yr union ddiwrnod neu'r mis, rhowch ddyddiad bras i ni.

Diwrnod Mis Blwyddyn

/

/

6. Beth yw eich statws TAW?

Am fwy o wybodaeth ar TAW, ewch i wefan Cyllid a Thollau EM

<http://.hmrc.gov.uk/vat>.

☐

Wedi cofrestru ar gyfer TAW

☐

Heb gofrestru ar gyfer TAW

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, beth yw eich rhif cofrestru TAW? Dylai eich rhif TAW fod rhwng 9 a 12 nod heb unrhyw fylchau.

7. Faint o bobl sydd ar y bwrdd neu bwyllgor sy'n rhedeg eich mudiad?

8. Oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all ymuno â'ch mudiad?

Er enghraifft:

- os oes gan eich mudiad aelodaeth, rydym yn disgwyl i hyn fod yn agored i bawb ac y gall unrhyw un ymuno, oni bai y gallwch ddarparu rheswm da pam na ddylent.
- byddem yn disgwyl gweld proses ymuno tryloyw a theg, gan gynnwys hawl i apelio. Gan hynny, rydym fel arfer yn ystyried bod cynnig ac eilio i dderbyn aelodau newydd yn annerbyniol.

9. Beth yw sefyllfa ariannol bresennol eich mudiad?

Dewiswch un opsiwn a llenwch y symiau o'ch cyfrifon neu eich rhagamcaniad.

- ☐ Gwybodaeth o'r cyfrifon diweddaraf a gymeradwywyd gan eich mudiad.
- ☐ Rhagamcaniad 12 mis gan eich bod wedi bodoli ers llai na 15 mis. Dylai hyn roi eich incwm a gwariant disgwyliedig ar gyfer y 12 mis o'r dyddiad y sefydlwyd eich mudiad.

Blwyddyn gyfrifon yn dod i ben ar	Diwrnod	Mis	Blwyddyn
Cyfanswm incwm ar gyfer y flwyddyn	£		
Cyfanswm gwariant ar gyfer y flwyddyn	£		

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

Gwarged neu ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn	£
Cyfanswm cynilion neu symiau wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn	£

10. A yw eich cyfrifon wedi cael eu harchwilio'n annibynnol?

Nid yw'n ofynnol i bob mudiad drefnu i'w gyfrifon gael eu harchwilio (gan archwilydd cofrestredig sy'n darparu barn am y cyfrifon). Mae rhai'n cael archwiliad annibynnol yn lle, sef adolygiad allanol llai trwyadl a gyflawnir gan rywun annibynnol sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol. Os yw eich cyfrifon yn cael eu harchwilio'n annibynnol ac nid gan archwilydd, dewiswch Nac ydi.

☐ Ydi ☐ Nac ydi

Os ydynt, rhowch enw a chyfeiriad eich archwilydd

Adran pedwar

Profiad mudiadau arweiniol

11. Dywedwch wrthym sut y cawsoch eich dewis i arwain y bartneriaeth yn eich ardal chi?

Ysgrifennwch hyd at 400 gair

12. Dywedwch wrthym am unrhyw brofiad sydd gennych o reoli prosiectau tymor hir sy'n cynnwys ystod o fudd-ddeiliaid a phartneriaid?

Ysgrifennwch hyd at 400 gair

Adran pump

Eich manylion cyswllt

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

Mae angen rhai manylion personol arnom ar gyfer **dau berson gwahanol** sy'n ymwneud â'ch cais - **prif berson cyswllt** (y sawl y byddwn yn delio â nhw ar sail bob dydd) ac **uwch gyswllt**. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad blaenorol os ydynt wedi byw yn eu cyfeiriad presennol ers llai na thair blynedd.

Rydym yn defnyddio hyn i gyflawni rhai gwiriadau adnabyddiaeth sylfaenol fel rhan o'n proses atal twyll safonol, felly gwiriwch fod yr wybodaeth a ddarperir yn gywir. Mae angen i bob mudiad, gan gynnwys mudiadau statudol, ddarparu hyn.

Mae'n bosib y bydd ein gwiriad adnabyddiaeth yn ymddangos ar adroddiad credyd, ond nid yw'n wiriad credyd ac fe gaiff ei weld dim ond gan yr unigolyn rydym yn ei wirio, felly ni fydd ei radd gredyd yn cael ei heffeithio. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn ein Canllaw i ddadansoddi risg, sydd ar gael ar cronfagymunedolylg.org.uk/gwiriogwybodaeth.

13. Nodwch brif cyswllt ar gyfer eich cais

Mae'n rhaid i'r prif berson cyswllt fod o'r mudiad, ac yn gyfarwydd gyda'r prosiect arfaethedig. Byddwn yn cysylltu â'r person hwn os bydd gennym unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cais.

Teitl

Enwau cyntaf

Cyfenw

Dyddiad geni (dd/mm/yyyy)

Teitl swydd

Cyfeiriad cartref

Côd post

Ffôn yn ystod y dydd

Ffôn gyda'r hwyr

Rhif ffôn symudol

E-bost

Dylai'r cyfeiriad e-bost fod yn un a ddefnyddir o ddydd i ddydd gan y prif berson cyswllt yn eich mudiad.

Os ydynt wedi byw yn y cyfeiriad uchod am lai na thair blynedd, rhowch eu cyfeiriad blaenorol.

Cyfeiriad blaenorol

Côd post

Os oes gan eich prif cyswllt unrhyw anghenion cyfathrebu, rhwch fanylion i ni.

--

Pa iaith ydych chi am i ni ei defnyddio pan fyddwn yn cyfathrebu â'ch prif berson cyswllt?

☐ Cymraeg

☐ Saesneg

Pa gyfeiriad dylem ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ohebiaeth? Dewiswch un:

☐ Prif gyfeiriad y mudiad

☐ Cyfeiriad cartref

☐ Cyfeiriad arall

Os yn gyfeiriad arall, beth ydyw?

Côd post

14. Uwch gyswllt

Ni all fod yr un unigolyn â'r prif berson cyswllt ac mae'n rhaid iddynt fod dros 18 oed. Mae'r unigolyn hwn yn gyfrifol am sicrhau bod y cais wedi'i gefnogi gan y mudiad sy'n ymgeisio, bod y gwaith sydd i'w ariannu'n cael ei weithredu a bod y mudiad yn rhoi diweddariadau i ni ar gynnydd. Os ydych yn elusen gofrestredig neu gwmni, dylai'r

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

person fod wedi ei restru fel ymddiriedolwr gan y Comisiwn Elusennau neu fel Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd gyda Thŷ'r Cwmnïau.

Teitl	
Enwau cyntaf	
Cyfenw	
Dyddiad geni (dd/mm/yyyy)	/ /

Beth yw eu teitl swydd? Mae'n rhaid i'r person cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol fod mewn un o'r swyddi a ganlyn. Ticiwch un blwch yn unig:

Math o fudiad	Cyfrifol yn gyfreithiol
Cyfarwyddwr	☐ Cwmni neu ☐ Ysgrifennydd cwmni
Ysgol	☐ Pennaeth
Awdurdod lleol neu gorff iechyd	☐ Prif weithredwr neu ☐ Cyfarwyddwr
Cyngor tref neu blwyf	☐ Clerc i'r cyngor (neu uwch ddeiliad swydd)
Pob math arall o fudiad	☐ Cadeirydd neu ☐ Is-gadeirydd neu ☐ Drysorydd

Cyfeiriad cartref	
Côd post	
Ffôn yn ystod y dydd	
Ffôn gyda'r hwyr	

Rhif ffôn symudol

E-bost

Os ydynt wedi byw yn y cyfeiriad uchod am **lai na thair blynedd**, rhowch eu cyfeiriad blaenorol.

Cyfeiriad blaenorol

Côd post

Os oes gan eich person cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol unrhyw anghenion cyfathrebu, rhowch fanylion i ni yma.

--

Pa iaith ydych chi am i ni ei defnyddio pan fyddwn yn cyfathrebu â'ch person cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol?

☐ Cymraeg

☐ Saesneg

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

Adran chwech

Eich syniad prosiect partneriaeth

15. Pa Awdurdod(au) Lleol y mae eich partneriaeth yn ei gwmpasu?

Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- ☐ Blaenau Gwent
- ☐ Pen-y-bont ar Ogwr
- ☐ Caerffili
- ☐ Caerdydd
- ☐ Sir Gâr
- ☐ Ceredigion
- ☐ Conwy
- ☐ Sir Ddinbych
- ☐ Sir y Fflint
- ☐ Gwynedd
- ☐ Ynys Môn
- ☐ Merthyr Tudful
- ☐ Sir Fynwy
- ☐ Castell-nedd Port Talbot
- ☐ Casnewydd
- ☐ Sir Benfro
- ☐ Powys
- ☐ Rhondda Cynon Taf
- ☐ Abertawe
- ☐ Torfaen
- ☐ Bro Morgannwg

16. Beth yw eich gweledigaeth i'r bartneriaeth a pa newid ydych yn gobeithio ei wneud?

Crynowch eich syniad prosiect a sut mae'n cyd-fynd â'r hyn rydyn ni'n edrych amdano yn y nodiadau arweiniad. Ystyriwch sut y byddwch yn goresgyn yr heriau sy'n wynebu buddiolwyr a'r sector. Ysgrifennwch hyd at 500 gair

17. Dywedwch wrthym am y bobl rydych chi'n disgwyl a fydd yn elwa o'r prosiect a'r heriau rydych chi'n eu hystyried sy'n eu hwynebu

Rydyn ni'n gwybod y gallai hyn newid, ond dywedwch wrthym gyda phwy rydych chi'n meddwl eich bod chi'n debygol o weithio a'r heriau rydych chi'n ymwybodol ohonyn nhw ar hyn o bryd. Ysgrifennwch hyd at 500 gair

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

18. Dywedwch wrthym sut y byddwch yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth sydd â phrofiad o lygad y ffynnon i helpu i ddylunio'ch prosiect


Bydd yr ateb i'r cwestiwn hwn yn arbennig o bwysig i ni wrth asesu'ch cais, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi cymaint o fanylder â phosib. Nid oes gennym ateb parod mewn cof, ond rydym eisiau gweld eich bod wedi ystyried sut i gynnwys buddiolwyr eich prosiect a pha un a yw'r hyn rydych yn bwriadu ei wneud yn debygol o weithio drosoch chi a nhw ai beidio. Ysgrifennwch hyd at 500 gair



19. Beth ydych eisiau i ni ei ariannu?

Rydym yn cydnabod na fyddwch yn gallu rhoi darlun clir o'ch gweithgareddau prosiect tan ar ôl i chi eu cyd-gynhyrchu, ond defnyddiwch yr adran hon i roi amlinelliad o'ch prosiect cyn belled ag y gallwch, gan egluro sut y bydd yn cael ei gyflwyno i ddechrau a pha weithgareddau rydych chi am i ni eu hariannu os ydych chi'n gwneud cais am grant datblygu. Dywedwch wrthym y math o bethau rydych chi'n meddwl y gallwch chi fynd ymlaen i'w gwneud yng nghanau. Rydym yn ymwybodol y gall y rhain newid o ganlyniad i'ch gweithgareddau cyd-gynhyrchu. Ysgrifennwch hyd at 500 gair.

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.



Adran saith

Beth ydych chi'n gobeithio'i gyflawni yng ngham un?

20. Sut bydd pobl yn elwa o'ch prosiect?

Dywedwch wrthym am y newidiadau allweddol rydych chi'n gobeithio eu cyflawni ar hyn o bryd i'ch partneriaeth ddatblygu. Rydym yn awgrymu bod gennych hyd at bedwar. Rydym yn deall y gallant newid wrth i'ch partneriaeth ddatblygu. Yn ystod y cam ymgeisio llawn, byddwn yn edrych am newidiadau sy'n darparu gwelliannau sylweddol a chynaliadwy i bobl sy'n profi digartrefedd, felly dylai eich cyflawniadau gyfrannu at ddatblygiad hyn

Nid ydym yn disgwyl i chi ddarparu manylder helaeth yma, ond fe hoffem glywed am weledigaeth a dyheadau eich partneriaeth.

Ysgrifennwch hyd at 30 gair ar gyfer pob cyflawniad.

1.
2.
3.
4.

21. Sut fyddwch yn mesur llwyddiant eich prosiect?

Disgrifiwch y dulliau y byddwch yn eu defnyddio i gynnwys pobl wrth fesur cynnydd y prosiect a gwerthuso ei lwyddiant (ee arolygon llinell sylfaen a dilynol, astudiaethau achos, cyfweiliadau, sgysrsiau ac arsylwi) Dywedwch wrthym sut y byddwch yn casglu gwybodaeth a pha mor aml y byddwch yn ei gasglu, ac os bydd unrhyw fudiadau eraill yn helpu gyda'r gwaith hwn. Disgrifiwch sut y byddwch chi'n gwybod bod eich

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

partneriaeth yn cael ei datblygu i gynhyrchu cynllun prosiect llawn yng ngham dau.
Ysgrifennwch hyd at 400 gair.

Adran wyth

Pwy yw'r mudiadau yn eich partneriaeth?

22. Rhestrwch y mudiadau a fydd yn bartner ffurfiol yn y prosiect, eu manylion cyswllt, eu profiad perthnasol a'u rôl yn y bartneriaeth.

Mudiad	Cyfeiriad cofrestredig	Enw cyswllt	Cyfeiriad e-bost a rhif ffôn	Profiad perthnasol	Rôl a chyfrifoldebau

Noder, ffurflen gais enghreiffthiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

Adran naw

Grant datblygu

23. Faint fydd cost datblygu eich prosiect a faint sydd ei angen arnoch ni?

Llenwch y tabl isod i amlinellu pa gostau yr ydych chi'n rhagweld sydd am ddigwydd wrth ddatblygu eich prosiect a faint, os unrhyw beth, y bydd ei angen arnoch chi. Dim ond costau refeniw y byddwn yn gallu eu hariannu. Dim ond i fudiadau a wahoddir i gyflwyno cais/cynllun prosiect llawn y byddwn yn dyfarnu grant datblygu.

Rydym eisiau gweld dadansoddiad manwl o'ch cyllideb, y dylech ei hanfon atom gyda'ch cais, hefyd. Dylai hyn gynnwys cyllideb fanwl ar gyfer y cam cyntaf.

Cost refeniw	Cyfanswm cost (£)	Swm gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol?

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

Adran deg

Cwblhau eich cais

Diogelu data

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gorff cyhoeddus sydd â dyletswydd i ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ac arian arall ar ffurf grantiau ar gyfer achosion da. Rydym yn defnyddio'r data personol a ddarparwch, fel manylion cyswllt unigolion yn eich mudiad, i'ch helpu ymgeisio am grant ac asesu'ch cais. Mae'n bosib y byddwn hefyd yn gwneud gwiriadau ar yr unigolion fel a ddisgrifir isod. Os dyfernir grant, byddwn yn defnyddio'r data personol i reoli a monitro'r grant, gwneud gwerthusiadau ac ymchwil, a gwirio bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Mae'n bosib y byddwn yn rhannu'ch data personol gyda mudiadau sy'n ein helpu gyda'n gweithgareddau gwneud grantiau neu eraill sydd â diddordeb dilys yn ein gwaith neu sydd wedi ariannu'ch grant. Byddwn yn rhannu dim ond y data personol y mae ei angen arnynt i wneud eu gwaith ac yn amodol ar fesurau diogelwch priodol.

Mae'n bosib y byddwn yn cadw mewn cyswllt â chi trwy gydol bywyd eich grant ac yn anfon gwybodaeth atoch trwy e-bost ynglŷn â'ch grant. Bydd hon yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ystod o bethau gan gynnwys sut i hysbysebu'ch grant, gwybodaeth am gyllid arall sydd ar gael a syniadau ac awgrymiadau prosiect gan ddeiliaid grant eraill.

Mae ein Hysbysiad Diogelu Data a Phreifatrwydd yn darparu mwy o wybodaeth am sut rydym yn storio ac yn defnyddio data personol a'r sail gyfreithiol dros hyn. Darllenwch yr Hysbysiad llawn sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cronfagymunedolyg.org.uk/diogeludata neu cysylltwch â ni i ofyn am gopi caled. Mae'n bosib y caiff yr Hysbysiad ei ddiweddarau o dro i dro.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i'r cyhoedd ofyn am unrhyw wybodaeth a ddelir gennym. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a dderbynnir gan drydydd partion megis y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: ymgeiswyr am grantiau, deiliaid grantiau a chontractwyr. Darllenwch ein polisi llawn sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan cronfagymunedolyg.org.uk/rhyddidgwybodaeth. Gall y polisi hwn gael ei ddiweddarau o dro i dro.

Os credwch y gallai gwybodaeth yn eich cais fod wedi'i heithrio o gael ei rhyddhau os gofynnir amdani, dylech roi gwybod i ni am hyn pan fyddwch yn ymgeisio. Ni fyddwn fel arfer yn rhyddhau gwybodaeth am eich prosiect wrth iddo gael ei asesu. Fel arall byddwn yn defnyddio ein barn i benderfynu p'un a fydd unrhyw eithriadau'n berthnasol, y byddwn efallai yn ceisio'ch barn chi arnynt. Byddai data personol yn cael ei cuddio, yn amodol ar ofynion deddfau diogelu data.

Ein dull taclo twyll

Rydym yn gwybod bod mwyafrif helaeth y llawer o filoedd sy'n ymgeisio i ni ac yn defnyddio ein hariannu yn onest. Er hynny, weithiau rydym yn derbyn ceisiadau Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.

twyllodrus ac felly mae'n ddyletswydd arnom i wneud gwiriadau ar unigolion mewn mudiadau sy'n ymgeisio am grantiau.

Gan hynny, caiff yr wybodaeth rydym wedi'i chywain oddi wrthyh ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i gadarnhau eich adnabyddiaeth. Os byddwn yn canfod twyll, mae'n bosib y caiff gwasanaethau penodol, fel cyllid neu gyflogaeth, eu gwrthod i chi.

Mae manylion pellach sut caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym a'r asiantaethau atal twyll hyn, eich hawliau diogelu data a sut i gysylltu â ni, ar gael yn llawn yn ein Hysbysiad Diogelu Data a Phreifatrwydd a gyhoeddir ar ein gwefan cronfagymunedolylg.org.uk/diogeludata. Cysylltwch â ni i ofyn am gopi caled.

Safonau'r Gymraeg

O dan Fesur y Gymraeg 2011 mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal â mudiadau sy'n derbyn ariannu gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys arian gan y Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, fodloni gofynion y Mesur, a'ch Telerau ac Amodau grant, wrth ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth am ein Safonau Cymraeg ar gael i'w lawrlwytho yma www.cronfagymunedolylg.org.uk/rheoliprosiectdwyieithog.

Gwirio bod eich cais yn gyflawn

Trwy gyflwyno'r cais hwn rydych yn cadarnhau'r canlynol:

- ☐ mae'r cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol a enwir yng nghwestiwn 14 a'r bwrdd neu bwyllgor sy'n rhedeg y mudiad wedi awdurdodi'r cais hwn
- ☐ rydych wedi bodloni ein gofynion os yw eich mudiad yn gangen neu adran mudiad mwy
- ☐ mae eich pwyllgor rheoli'n cynnwys isafswm o dri o bobl dros 18 oed nad ydynt yn perthyn i'w gilydd
- ☐ rydych wedi rhoi polisiau a phrosesau perthnasol ar waith os bydd eich gweithgareddau'n cynnwys gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus
- ☐ rydych yn cytuno y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i darparu at y dibenion a ddisgrifir o dan ein Polisi Diogelu a Rhannu Data, y gallwch ddod o hyd iddo yn cronfagymunedolylg.org.uk/diogeludata
- ☐ os gofynnir am wybodaeth ynglŷn â'r cais hwn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rydych yn derbyn y byddwn yn ei rhyddhau yn unol â'n Polisi Rhyddid Gwybodaeth y gallwch ddod o hyd iddo yn cronfagymunedolylg.org.uk/rhyddidgwybodaeth

Rydych wedi amgáu / e-bostio'r wybodaeth a ganlyn fel rhan o'ch cais:

- ☐ y ffurflen gais wedi'i chwblhau

Cyflwyno eich cais

Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau trwy e-bost i digartrefedd@cronfagymunedolyg.org.uk gan roi enw eich mudiad yn llinell pwnc yr e-bost. Mae'n well gennym dderbyn ffurflenni cais trwy e-bost, fodd bynnag os nad oes gennych fynediad i e-bost, anfonwch eich cais drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
10^{fed} Llawr
Tŷ Belmont
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2DY

Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol atom yn y cam hwn oni bai ein bod wedi gofyn yn benodol i chi wneud hyn pan anfonwyd y ffurflen gais atoch. Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i chi anfon unrhyw wybodaeth gefnogol bellach atom wrth i ni asesu'ch cais.

Os bydd angen i chi anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol atom trwy e-bost, weithiau mae maint ffeil yr atodiadau'n eich atal rhag gwneud hyn. Os byddwch yn cael unrhyw broblemau gyda hyn, cysylltwch â ni (manylion ar dudalen 2).

Noder, ffurflen gais enghreifftiol yn unig yw hwn, cysylltwch â ni am gopi llawn o'r ffurflen.